LLYTHYR NEWYDDION ALPS HAF 2017 - CYMRU





Gwaith Alps yng Nghymru

Bu'n ddeuddeg mis prysur i Alps yng Nghymru ac rydym yn ddiolchgar am y gefnogaeth a'r diddordeb a rannwyd gan gydweithwyr o ar draws y wlad. Erbyn hyn mae pob ysgol yng Nghymru a llawer o'r colegau'n defnyddio Alps fel eu harf gwella ôl-16, gan greu iaith gyffredin a chyfleoedd ledled y wlad.

Rydym wedi ymweld â thros 150 o ysgolion eleni er mwyn darparu hyfforddiant ac rhoi adborth i ysgolion a cholegau. Ar ben hyn, rydym wedi arwain sesiynau hyfforddi gydag ymgynghorwyr gwella, llywodraethwyr, penaethiaid ac arweinwyr Awdurdodau Lleol; ynghyd â chynhadledd genedlaethol yng Nghaerdydd ym Mawrth.

Mae'r croeso a gawsom gan gydweithwyr – o Sir Fôn yn y Gogledd i Fro Morgannwg yn y De – wedi bod yn anhygoel.

Yn 2017/18, byddwn yn ymweld â phob ysgol gyda chweched dosbarth yng Nghymru yn ein rôl fel cyfaill allweddol.

Cwrdd ag Estyn

Ym Mai, aethom i Gaerdydd er mwyn cyfarfod â chydweithwyr o Estyn. Gobeithiwn mai'r cyfarfod hwn fydd y cyntaf o lawer gyda'r Arolygiaeth, yn enwedig o ystyried y pwysigrwydd a roddir gan Estyn nawr i ganlyniadau chweched dosbarth.

Fel y gwyddoch, mae'r Cynulliad Cenedlaethol yn bwriadu cyflwyno cyfres o fesurau cyflawniad ar gyfer darparwyr àl-16, yn cynnwys mesur ychwanegu gwerth a chynnydd. Rydym yn hynod falch i glywed y newyddion hyn. Maent yn creu'r posibilrwydd o godi proffil canlyniadau chweched dosbarth yn uwch fyth.

Mae'n amlwg i ni y dylid defnyddio Alps ochr yn ochr ag unrhyw fesur cyflawniad cenedlaethol, yn yr un modd ag y caiff ei ddefnyddio yn Lloegr ar hyn o bryd.

Yn Ebrill, bu inni gyfarfod â chydweithwyr sy'n gyfrifol am ddatblygu'r mesurau newydd hyn yng Nghaerfyrddin, a bu inni gytuno gyda'n gilydd ar gyfres o gamau positif ymlaen.

Llywodraeth Cymru

Ar ddiwedd Ebrill, teithiodd cydweithwyr o Alps i Gaerffili a Chaerfyrddin i gwrdd â chynrychiolwyr o Gynulliad Cymru sy'n datblygu'r gyfres newydd o fesurau atebolrwydd ôl-16. Hwn oedd eu hail gyfarfod a'n nod oedd rhoi gwybod i'n gilydd am y cynnydd rydym oll yn ei wneud, a thrafod dulliau o gydweithio yn y dyfodol. Roedd hwn yn gyfarfod rhagorol lle sefydlwyd blaenoriaethau clir, cytunwyd ar gyfarfodydd yn y dyfodol a thrafodwyd chyfathrebiadau ar y cyd.

bsi. ISO/IEC 27001 Information Security Management
IS 621807

KS4 & KS5 Performance Systems

Alps®
The Student Centred Approach

Alps Connect

O Hydref 2017 byddwch yn gallu cyrchu eich dadansoddiad Alps ar-lein trwy gyfrwng Alps Connect. Mae Connect yn eich caniatáu i:

- Lunio eich adroddiadau Alps addasedig eich hun neu ddefnyddio'r adroddiadau a ddiffiniwyd o flaen llaw – a rhannu'r rhain gyda chydweithwyr
- Gwneud dadansoddiad 'beth os' er mwyn gweld yn syth faint o raddau sydd angen iddynt newid ym mhob pwnc er mwyn symud i fyny (neu lithro i lawr) y thermomedr Alps
- Edrych ar gyflawniad gan grwpiau o fyfyrwyr a chymharu cyflawniad rhwng grwpiau o fyfyrwyr – megis fesul rhyw, ethnigrwydd neu anfantais
- Lanlwytho eich canlyniadau diwedd y flwyddyn a'ch graddau monitro mewn blwyddyn, a chyfuno'r ddau fath hwn o ddata yn yr un adroddiad

Yng Nghymru, rydym wedi cytuno y darperir Alps Connect i bob ysgol fel rhan safonol o unrhyw brosiect naill ai gydag awdurdodau lleol neu'r consortia rhanbarthol. Golyga hyn na fydd unrhyw gost ychwanegol i ysgolion er mwyn iddynt ddefnyddio'r arf gwella eithriadol hwn ar gyfer eu chweched dosbarth.

Adroddiad Alps CA4 ar gyfer Cymru

Ar hyn bryd rydym yn cynnal rhaglen beilot Cyfnod Allweddol 4 sy'n cynnwys 40 o ysgolion yng Nghymru. Mae'r ysgolion hyn ar fin derbyn copi o'n hadroddiad CA4 Cymreig newydd. Yna byddwn yn cyfarfod â phob ysgol yn unigol er mwyn adolygu eu hadroddiad. Mae hwn yn gyfle i Alps ddarparu hyfforddiant ar gyfer yr ysgolion peilot , ac i'r ysgolion roi eu hadborth i ni ar ein hadroddiad CA4.



Mae gan ein hadroddiad Cyfnod Allweddol 4 y gallu i fod yn arf trawsffurfio ar gyfer ysgolion yng Nghymru. Mae'n cynnwys:

- System graddoli a chodio lliw syml
- Gosod targedau uchelgeisiol
- Dadansoddiad set addysgu
- Dadansoddiad rhyw
- Dadansoddiad ethnigrwydd
- Dadansoddiad tueddiad 4-blynedd
- Dangosfyrddau Bwlch



Fel gyda ChA5, cefnogir ein hadroddiad CA4 gan hyfforddiant a roddir gan ein tîm arbenigol o hyfforddwyr Alps profiadol.

Rhagwelwn y gallwn gynnig ein hadroddiad Cyfnod Allweddol 4 yn yr Hydref yng Nghymru. Unwaith bod y rhaglen beilot wedi dirwyn i ben, byddwn yn cysylltu ag ysgolion yng Nghymru er mwyn cadarnhau hyn.

bsi. ISO/IEC 27001 Information Security Management
IS 621807
KS4 & KS5 Performance Systems
Alps®
The Student Centred Approach